STRATEGAETH WASTRAFF RANBARTHOL – CYFARFOD Y GRŵP RHEOLI 23AIN MAI 2002.

Presennol:

Geoff White	-	CBSCNPT
Howell Beaton	-	CBSCNPT
Andy Rees	-	Y Cynulliad
Julie Tate	-	Asiantaeth yr Amgylchedd
Andy Street	-	SLR
Alban Forster	-	SLR

1. **Amserlen ar gyfer cynhyrchu Asesiad Cam 1.**

Cytunwyd y byddai SLR yn cynhyrchu trosolwg cychwynnol o'r data sydd ar gael, yr arfer presennol a'r targedau. Byddai hyn yn gwneud defnydd o ddata SWMA sydd wedi'u cyhoeddi, a bydd data anghyflawn 2000/01 yn cael ei ddefnyddio hefyd lle mae ar gael. Byddai'r adroddiad hwn yn gweithredu fel dogfen drafod i fynd i'r afael â'r materion canlynol:-

- Dyddiadau sylfaenol cyffredin
- bylchau mewn data
- gorgyffyrddiadau (yn enwedig cyfansymiau)
- materion maint
- safleoedd di-drwydded

Adroddiad Drafft ar gyfer y Grŵp Rheoli o fewn 6 wythnos
Dosbarthir papur drafft i'r Grŵp Technegol ymhen 10 wythnos ar gyfer cyfarfod yn wythnos 11.
Papur Olaf Cam 1 ymhen 16 wythnos

Cytunwyd y dylai 'cyfleusterau a gynlluniwyd' gael caniatâd cynllunio.
Byddai'n rhaid i'r amcangyfrifon ystyried newidiadau i'r rhestr Gwastraff Peryglus a'r goblygiadau o ran peidio â thrin gwastraff cyn claddu sbwriel.
Cytunwyd y dylai adroddiad Cam 1 gynnwys sylwadau ar faterion allweddol – yr effaith ar Gyfarwyddyd Claddu Sbwriel; Cyfarwyddyd Gwastraff; Eco-barciau ac ati.

Gweithrediadau

AR i roi data SWMA i AF ar daenlen.
AR i ddarparu fersiwn WORD o'r Strategaeth Ddrafft Gwastraff Cymru derfynol (yn gyfrinachol) i AF.
AS i ddarparu Strategaeth Wastraff Drefol y De-orllewin i AR.

2. **Cam 2.**

Nodwyd y pwyntiau canlynol.

- Yr angen i nodi nifer o opsiynau ac opsiynau posibl – gwnewch leiafswm/uchafswm.
- Perfformiad presennol – cyd-destun sylfaenol ar gyfer dadansoddi opsiynau
- Mae'r Cynulliad yn chwilio am brosiectau i'w defnyddio fel enghreifftiau sy'n mynd ymhellach na'r lleiafswm targed.
- Mae targedau'n lleiafswm a disgwylir i'r canlyniadau fynd heibio iddynt.
- Bydd y pwysiadau sy'n cael eu cynnwys i'r elfennau gwahanol yn chwarae rôl bwysig.
- Bydd dyraniadau penodol yn anodd, ond mae hyn wedi'i gyflawni mewn llefydd eraill (swydd Lincoln) drwy ganolbwyntio ar ofynion maint/isadeiledd
- 6 mis ar gyfer dadansoddi opsiynau, gyda drafft ar ôl 2/3 mis ac wedyn cyfarfod/seminar gyda'r Grŵp Technegol.

3. **Agenda ar gyfer Cyfarfod y Grŵp Technegol**

a) Cyflwyniad i SLR gan SLR
b) Nodau'r Grŵp Technegol – memorandwm o ddealltwriaeth sy'n delio â disgwyliadau aelodau unigol y Grŵp Technegol. AF i gynhyrchu drafft.
c) Rhaglen o gyfarfodydd ar gyfer y Grŵp Technegol a'r Fforwm Aelodau – Cyfarfod nesaf y Grŵp Technegol ar ddydd Mawrth 3ydd Medi.

4. **Cyfarfod Nesaf.**

Dydd Mawrth 16eg Gorffennaf am 9.00am. Penllergaer.